

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWDYD AM 9.30AM AR 23 CHWEFROR 2021 DRWY TEAMS

Yn bresennol: Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFFDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

Amser dechrau: 09:30

Amser gorffen: 11:21

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ynghylch ei chyfarfod diweddar â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC):

- Bu rhagor o ohebiaeth rhwng LIC a Chyngor Caerdydd, a byddai senarios yn cael eu cyflwyno gerbron y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai (y Gweinidog) mewn cyfarfod ar 25 Chwefror. Byddai LIC yn ceisio trefnu cyfarfod rhwng y timau cyfreithiol, fel yr awgrymwyd gan y Comisiwn.
- Mae Gorchymyn Cymunedol Sir Fynwy yn cael ei baratoi o hyd. Mae LIC wedi dod â staff ychwanegol i mewn i gwblhau'r gwaith sy'n weddill.
- Croesawodd LIC y cynnig am gymorth gan y Prif Weithredwr yn ymwneud â Llythyr Cylch Gwaith 2021/22.
- Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno cais cyllideb i LIC am £598,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- Roedd LIC wedi awgrymu y dylai'r Comisiwn drafod ag Un Llais Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ei syniadau i ddatblygu adnoddau fel rhan o'i waith cyfathrebu ar gyfer 2021/22.

2.2. Anfonwyd llythyr ar y cyn Dirprwy Brif Weithredwr, Matt Redmond, yn diolch iddo am ei waith a'i wasanaeth i'r Comisiwn, yn ogystal â dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd.

- 2.3. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i drefnu cyfarfod ag Un Llais Cymru a'r Comisiwn Etholiadol.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn codi

- 4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2021 ar Faterion yn Codi gan y Prif Weithredwr.

- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd a nodwyd cynnydd cyfredol yn ymwneud â'r materion canlynol:

- **(Mater 1) Rhaglen Newid**
Trefnwyd tri gweithdy ar-lein ym mis Mawrth. Fel y nodwyd yn flaenorol, caiff y Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd eu cynnal ar ôl cwblhau Arolwg Sir Fynwy. Bydd *Insights Discovery* yn symud i'r flwyddyn ariannol nesaf, erbyn hyn, oherwydd y cyfyngiadau posibl ar y gyllideb os bydd angen i'r Comisiwn ymgymryd â gwaith ychwanegol mewn perthynas â'r arolygon. Caiff yr Arolwg Staff ei gynnal ym mis Mawrth, gyda'r canlyniadau ym mis Ebrill, a bydd cwestiynau yn ymwneud â Covid-19 ac ymateb y Comisiwn yn cael eu cynnwys.
- **(Mater 2) Cytundeb Fframwaith**
Mae'r Comisiwn yn aros am sylwadau ar y drafft gan LIC.
- **(Mater 3) Arolygon Etholiadol – Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint**
Mae'r Gweinidog wedi diolch i'r Comisiwn am y wybodaeth yn ymwneud â Chaerdydd, y mae'n ei hystyried ynghyd â'r arolygon eraill. Trafodwyd yr arolygon etholiadol a gyflwynwyd yn gynharach yn y rhaglen, a **chytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â LIC i drafod yr opsiwn o LIC yn symud yr arolygon cynharach ymlaen i'r cam penderfynu.
- **(Mater 4) Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**
Cafodd y Comisiwn un cais Rhyddid Gwybodaeth o 01 Rhagfyr 2020 – 10 Chwefror 2021 yn ymwneud â'r Strategaeth TG a Chyllidebau.

- 4.3. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gysylltu â LIC mewn perthynas â symud yr arolygon etholiadol cynharach ymlaen.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 16 Chwefror 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

- 5.2. **Nodwyd** y pwyntiau canlynol:

- Cyhoeddwyd Adroddiad Terfynol Bro Morgannwg ar-lein ar 05 Chwefror, gyda chopïau papur o'r adroddiad yn dilyn drwy'r post.
- Mae ymgynghoriad Sir Fynwy yn cau ar 10 Mawrth a chafwyd wyth o gynrychiolaeth hyd yn hyn. Caiff opsiynau eu cyflwyno gerbron y cyfarfod ar 30 Mawrth a bydd yr adroddiad terfynol drafft yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 13 Ebrill, a'i gyhoeddiad yn debygol ym mis Mehefin.
- Diweddarwyd y Tabl Dadansoddi Nod Meintiau Cynghorau ers y cyfarfod diwethaf.
- Mae'r Arolygon Ôl-arolwg wedi dechrau, gan ddechrau â Chasnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn, Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf

- 5.3. O ran y Gofrestr Risg Arolygon, ar ôl trafodaeth yn ymwneud ag ymagwedd y Comisiwn tuag at risg, **cytunwyd**, fel corff cyhoeddus annibynnol, y bydd y Comisiwn yn gwneud ei ragdybiaethau rhesymol ei hun ynghylch risgiau.

6. Monitro'r Gyllideb

- 6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 16 Chwefror 2021 gan y Rheolwr Cyllid.

- 6.2. **Nodwyd** yn y cyfarfod cyswllt diwethaf bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Comisiwn ystyried ildio unrhyw gyllid dros ben amcangyfrifedig. Ar ôl hynny, cytunodd Aelodau y byddai'r Comisiwn yn ildio £20,000 o Gymorth Grant dros ben amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai ildio'r cyllid hwn yn gadael y Comisiwn â thanwariant diwedd blwyddyn amcangyfrifedig o £5,000 – £9,000.

- 6.3. Nododd aelodau'r newidiadau arfaethedig i gategoriâu'r gyllideb a wnaed o ganlyniad i ildio'r cyllid. Fodd bynnag, nodwyd hefyd efallai y bydd angen i'r Comisiwn ofyn i gael y cyllid a ildwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru os bydd yn gofyn i'r Comisiwn ymgymryd â gwaith arolwg ychwanegol ym mis

Mawrth 2021. Byddai'r sefyllfa'n fwy eglur ar ôl cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog ar 25 Chwefror.

- 6.4. **Cytunwyd** i gymeradwyo'r hawl i drosglwyddo arian rhwng categorïau'r gyllideb ac ildio £20,000 o gyllid i Lywodraeth Cymru, ar yr amod y byddai'r cyllid a ildiwyd ar gael i'r Comisiwn pe byddai'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith ychwanegol.

7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 11 Chwefror 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 7.2. **Nodwyd** bod y newid i CR2 wedi'i roi ar waith ers y cyfarfod diwethaf.
- 7.3. Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o waith arolygu ychwanegol, yr adnoddau y byddai eu hangen a'r risg dan sylw. **Cytunwyd** y dylai'r Prif Weithredwr gysylltu â LIC ar frys ar ôl y cyfarfod â'r Gweinidog ar 25 Chwefror.
- 7.4. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â LIC ar 26 Chwefror i weld a fydd gofyn i'r Comisiwn ymgymryd â gwaith arolygu ychwanegol.

8. Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

- 8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 11 Chwefror 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 8.2. **Cytunwyd** y pwyntiau canlynol:
- Bydd yr Holiadur Blynnyddol ar Werthuso Effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael ei anfon at aelodau'r bwrdd yn gynnar ym mis Mawrth, ar yr un adeg â'r Arolwg Staff.
 - Dylid cynnwys y pum cwestiwn awgrymedig o'r holiadur Gwerthuso'r Bwrdd yn yr Arolwg Staff.
 - Dylid ychwanegu cwestiwn ychwanegol ar yr adran 'Ystafell y Bwrdd' i adlewyrchu ymateb y Bwrdd i Covid-19.
 - Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu brawddeg at yr adran cwestiynau'r Bwrdd yn yr Arolwg Staff, yn datgan nad oes rhaid i staff ateb cwestiynau os nad ydynt yn gallu gwneud hynny, gan nad oes gan yr holl staff gysylltiad rheolaidd â'r Bwrdd.

- 8.3. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ychwanegu cwestiwn ychwanegol at adran 'Ystafell y Bwrdd' yr holiadur yn ymwneud â pharhad busnes a sut yr ymatebodd y Bwrdd i amgylchiadau eithriadol.
- 8.4. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu brawddeg ychwanegol at yr Arolwg Staff yn datgan nad oes rhaid i staff ateb cwestiynau os na allant wneud hynny.

9. Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith Blynyddol CFfDLC

- 9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 23 Chwefror 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. **Cytunwyd** y Cylch Gorchwyl yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- Bydd brawddeg yn cael ei hychwanegu at 3.1 i adlewyrchu gwaith ychwanegol ar gais y Gweinidog.
 - Bydd 3.2 newydd yn cael ei ychwanegu i adlewyrchu effaith ehangu'r etholfraint etholiadol h.y. 'Gwaith i gefnogi cyfrifoldebau statudol'.
 - Dylid ychwanegu at baragraff 6.2 fod gan y Comisiwn y cyfleustra i weithio o bell.
 - Bydd pwynt bwled newydd, sef 'adolygu'r Cynllun Parhad Busnes' yn cael ei ychwanegu at 6.4.
 - Bydd dyddiadau'r Cynllun Gweithredol ym mharagraff 6.6 yn cael eu newid o fis Chwefror/Mawrth i fis Ebrill/Mai.
 - Bydd Aelodau'r Bwrdd yn llenwi ffurflenni Datganiad o Fuddiant.
- 9.3. **Nodwyd** y Cynllun Gwaith Blynyddol yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cymryd yr awenau gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ar y Calendr Digwyddiadau.
 - Bydd Adroddiad Cadeirydd ARAC yn symud i fis hwyrach oherwydd mater amseru.
 - Dylid ychwanegu 'Newid yn yr hinsawdd' ac 'Amrywiaeth a Chynhwysiant' ar ôl cael canlyniadau'r Arolwg Staff.
- 9.4. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn edrych ar y ddeddfwriaeth i ddod o hyd i ychwanegiad i Gylch Gorchwyl 3.1 sy'n adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sy'n ofynnol gan y Gweinidog.
- 9.5. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau'r Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Gwaith â'r newidiadau cytûn.

- 9.6. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ychwanegu 'Newid yn yr hinsawdd' ac 'Amrywiaeth a Chynhwysiant' at y Cylch Gorchwyl ar ôl cael canlyniadau'r Arolwg Staff.

10. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

- 10.1. Ystyriwyd yr adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr.
- 10.2. **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr yn bwriadu ail-agor y swyddfa ar 1 Mawrth i staff weithio ar system rota, ond y byddai hyn yn ddewisol a gallai staff barhau i weithio gartref pe byddai hynny'n well ganddynt. Bydd dau Swyddog Cymorth Tîm newydd yn dechrau gweithio ar 1 Mawrth, a gall aelodau'r bwrdd fynychu'r cyfarfod ar 30 Mawrth yn y swyddfa, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus.
- 10.3. Trafodwyd Gweithio Unigol, a **chytunwyd** y dylid atgoffa staff o ofyniad y polisi Gweithwyr Unigol i roi gwybod i'r Prif Weithredwr pan fyddant yn gadael y swyddfa.
- 10.4. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn atgoffa staff i roi gwybod i'r Prif Weithredwr pan fyddant yn gadael y swyddfa, os ydynt yn gweithio'n unigol.

11. Calendr Digwyddiadau

- 11.1. **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

12. Unrhyw Fater Perthnasol Arall

- 12.1. **Cytunwyd** i wneud ychwanegiad i gofnodion mis Ionawr yn ymwneud â'r cyfarfod â'r Comisiwn Etholiadol.
- 12.2. Gwahoddwyd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd i roi'r newyddion diweddaraf i'r cyfarfod am y gwaith cyfathrebu y bu'n gysylltiedig ag ef ers iddo ddechrau gweithio yn y Comisiwn ym mis Ionawr.
- 12.3. Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn gwirio a oes eiddo deallusol ar logo y Comisiwn.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30 Mawrth 2021